MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS

RHEOLAU 2023-2024 RULES

# CYSTADLEUAETH BIFF IFANC CFFI CYMRU WALES YFC BABY BEEF COMPETITION

**CYMHWYSTER**

1. Mae'r gystadleuaeth yn agored i Aelodau Ffederasiwn CFfI Gymru, yn ogystal ag aelodau Ffederasiynau CFfI Swydd Henffordd, Swydd Amwythig a Sir Gaer.

2. Gall cystadleuwyr ymgeisio am Gystadleuaeth Prif Gynhyrchydd Ŵyn yn ogystal â'r Gystadleuaeth Bîff Ifanc.

3. Bydd angen i gystadleuwyr fod wedi troi yn 14 mlwydd oed cyn dydd cyntaf y Ffair Aeaf, ac yn 28 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2024. Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

   Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys (â llun) yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o enwau'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelodau o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

---

**YMGEISIO**

4. Dylid anfon ffurflenni trwy **Porth Ffair Aeaf Frenhinol Cymru** erbyn **9fed o Hydref 2024**. Ni dderbynnir unrhyw ffurflenni hwyr.

5. Bydd rhaid i'r holl loi fod o dan 425KG, pwysau byw. Bydd unrhyw lo sy'n uwch na'r pwysau yma yn cael eu gwahardd o'r gystadleuaeth.

6. Bydd rhaid cynnwys tâl cystadlu o £10.00 gyda phob ffurflen.

---

**MANYLION Y GYSTADLEUAETH**

7. Dosbarth: Bustach neu Anner, unrhyw frid neu groesfrid.

8. Caiff lloi eu barnu ar sail eu rhinweddau fel lloi bîff masnachol y bwriedir eu cyflwyno i'r gadwyn fwyd. Bydd penderfyniad y Beirniaid yn derfynol. (Nodwch bydd yr un beirniad Bîff Ifanc ar draws yr holl ddosbarthiadau gan gynnwys CFfI)

9. Os bydd angen hynny, caiff y gwartheg eu rhannu yn gategorïau ar sail pwysau, yn unol â disgresiwn Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru.

10. Rhaid i gystadleuwyr brynu'r llo o farchnad neu o fferm eu teulu. Os prynir llo o fferm y teulu, rhaid i'w bris adlewyrchu prisiau presennol y farchnad.

11. Gellir cofrestru dau lo yn y lle cyntaf; fodd bynnag, dim ond un llo a all gystadlu yn y Ffair Aeaf, a bydd rhaid i gystadleuwyr hysbysu CFfI Cymru erbyn 31 Hydref ynghylch pa lo fydd yn y gystadleuaeth. NI ELLIR newid lloi wedi'r dyddiad hwn.

12. RHAID i bob llo gwryw FOD WEDI'I YSBADDU.

13. Bydd y beirniadu yn digwydd yn Ffair Aeaf Brenhinol Cymru, Llanelwedd, ar Ddydd Mawrth 26ain o Dachwedd 2023 am 09.15yb. Ni chaniateir i loi adael y sioe tan ar ôl yr arwerthiant ar 26ain o Dachwedd 2023.

14. Ni chaniateir i loi sy'n cael eu dangos gan aelodau yn y dosbarthiadau CFfI gystadlu mewn unrhyw ddosbarthiadau eraill yn Ffair Aeaf 2024.

15. Pob llo i fod wedi'i brynu erbyn y dyddiad cau a rhaid sicrhau ei fod ar gael i'w dagio rhwng Hydref 31 a Thachwedd 14. Pasbortau i'w dangos.

16. Dylai'r lloi gyrraedd Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ddydd Sul 24ain o Dachwedd rhwng 9yb a 2yp. Clymir y lloi mewn corau mewn rhan benodol o'r sied wartheg a neilltuir i'r CFfI. Bydd y stiwardiaid yn neilltuo'r lle hwnnw.

17. Bydd rhaid pwyso'r lloi ar y dydd Sul yn y Ffair Aeaf ar yr adeg penodol. Rhoddir rhifau dangoswyr i gystadleuwyr yn ystod y Pwyso.

18. Dylid cyflwyno pasbortau yn ystod y pwyso.

---

**TREFN**

19. Mae gan y cystadleuwyr y opswisn i gael eu cefnogi gan 'Noddwr', megis cymdeithas brid, sefydliad marchnata, busnes leol neu un o gefnogwyr eraill y diwydiant.

20. Bydd pob cystadleuydd yn cael ardal benodol i godi bwrdd a dylid cynnwys manylion am y llo, manylion am y costau priodol, manylion porthiant a gwybodaeth ynglŷn â'i noddwr. Gall y bwrdd fesur hyd at 3tr x 3tr.

21. Yn ystod y Ffair Aeaf, bydd yn ofynnol i bob cystadleuydd ddangos ei lo yn y Prif Gylch fel gellir ei feirniadu. Bydd dangoswyr stoc medrus ar gael i gynorthwyo aelodau'r CFfI os bydd angen hynny.

22. Gwobrau: Caiff lloi eu beirniadu ar y diwrnod mewn 2 ddosbarth, sef dosbarthiadau bustych ac aneri. Dyfernir rhosedi am Brif Bencampwr a Chilwobr y Pencampwr Cystadleuaeth Biff Ifanc y CFfI. Caiff y pencampwr wedyn gyfle i fynd ymlaen i gystadlu yn erbyn adrannau eraill cystadleuaeth Biff ifanc y Ffair Aeaf a chael y cyfle i ennill Pencampwr y pencampwyr yn y Biff Ifanc.

    * Dyfernir gwobr arbennig i'r llo gorau sy'n eiddo i gystadleuydd sy'n cystadlu am y tro cyntaf.

    * Dyfernir tlws i'r Stocmon Gorau yn yr adran hon.
    - Dyfernir 50% o'r marciau am y bwrdd arddangos a manylion y costau. Ystyrir y canlynol:
        - Costau – i gynnwys pris a dalwyd am y llo,
        - Os prynir llo o fferm y teulu, rhaid i'w bris adlewyrchu prisiau presennol y farchnad.

- Manylion y Llo – i gynnwys y lleoliad a brynwyd y llo,
- Manylion yn hysbysebu'r "Noddwr",
- Argraff gyffredinol y cyflwyniad ac
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a gyflwynir.

- Dyfernir 50% o'r marciau am fedrau dangos stoc yn ystod y sioe, a beirniedir hynny dros y 3 diwrnod gan ystyried:
  - Trin a thrafod a dangos yr anifail,
  - Paratoi, cyflwyniad a lles yr anifail,
  - Taclusrwydd yn y sied wartheg,
  - Gwybodaeth lafar i'r cyhoedd ac
  - Agwedd a chydweithrediad â stiwardiaid yr adran a staff a swyddogion y CFfI.

23. Dylid dod â'r lloi i'r Ffair Aeaf wedi eu clipio.

24. Gofynnir i aelodau lenwi taflen wybodaeth amdanynt hwy a'u llo ar adeg pwyso'r llo, a dylid rhoi'r daflen i stiward y CFfI. Defnyddir yr wybodaeth gan y sylwebydd pan ddangosir y lloi yn y cylch.

---

**ARWERTHIANT Y FFAIR AEAF**

25. Gall cystadleuwyr gynnwys eu lloi yn arwerthiant y Ffair Aeaf os dymunant. Cyfrifoldeb yr aelodau fydd hysbysu'r arwerthwyr ynghylch unrhyw isafswm pris y byddant yn dymuno ei bennu i'w llo. Cyfrifoldeb yr aelod yw mynd â'r llo i'r cylch arwerthu pan fydd angen hynny.

26. Rhaid cynnig y Pencampwr i'w werthu.

---

27. Nodwch fod rheolau cyffredinol CFfI Cymru a Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn berthnasol i'r gystadleuaeth hon.
28. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan CFfI Cymru ar 01982 553502 neu e-bostiwch materiongwledig@yfc-wales.org.uk

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU**
**WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2023-2024 RULES**

# CYSTADLEUAETH BIFF IFANC CFFI CYMRU
# WALES YFC BABY BEEF COMPETITION

**FFURFLEN GAIS**
**CYSTADLEUAETH BIFF IFANC CffI CYMRU 2024**

I fod yn gymwys i gystadlu yng nghystadleuaeth Biff Ifanc CffI Cymru 2024, cwblhewch **Ffurflen Ar-lein Ffair Aeaf Frenhinol Cymru** erbyn y **9fed o Hydref 2024.**

Bydd y ddolen i Borth Mynediad Ar-lein Frenhinol Cymru yn cael ei gysylltu **YMA** unwaith y byddant wedi agor.

**Os ydych chi dan 18 mlwydd oed, mae angen cadarnhad gan riant.**

**RWYF WEDI DARLLEN RHEOLAU'R GYSTADLEUAETH AC RWY'N CYTUNO I GADW ATYNT.**

materiongwledig@yfc-wales.org.uk

**FFEDERASIWN CFFI CYMRU, CANOLFAN CFFI, LLANELWEDD, LLANFAIR YM MUALLT, POWYS, LD2 3NJ**